

## Dewis Eich Dyfodol 2023 Adnoddau ysgol i rieni a gofalwyr

### Digwyddiad: Dewis Eich Dyfodol Sir y Fflint a Wrecsam

Dyddiad: Dydd Mercher 11 Hydref 2023, rhwng 12:30pm a 6:30pm

Lleoliad: Gwesty Ramada Plaza, Ffordd Ellice, Wrecsam LL13 7YH

- Amser: 12:30am i 3:30pm, i ysgolion
- 3:30pm i 6:30pm, i rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr a'r cyhoedd

Hoffai Gyrfa Cymru wahodd rhieni a gofalwyr o Sir y Fflint a Wrecsam i fynd gyda'u plentyn i'r digwyddiad Dewis Eich Dyfodol a gynhelir yn Gwesty Ramada Plaza

Beth all disgyblion, rhieni a gofalwyr ei ddisgwyl?

Bydd y digwyddiad Dewis Eich Dyfodol yn arddangos detholiad o gyflogwyr lleol a bydd cyfle i ddisgyblion glywed gan arbenigwyr diwydiant o bob rhan o'r rhanbarth a siarad â nhw.

Mae hwn yn gyfle gwych i ddisgyblion wneud y canlynol:

- Ymchwilio a chael gwybodaeth gan bobl mewn diwydiant
- Darganfod beth mae cyflogwyr yn chwilio amdano wrth recriwtio'u gweithlu
- Cael cipolwg ar fyd gwaith i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu dyfodol

Gall disgyblion hefyd gael gwybod am y canlynol:

- Swyddi
- Gyrfaoedd
- Prentisiaethau
- Llwybrau hyfforddi

Bydd cynghorwyr gyrfa ar gael yn y digwyddiad hefyd i roi cyngor ac arweiniad ar swyddi, cyrsiau a chymwysterau.

Mae Gyrfa Cymru yn gofyn yn garedig i ysgolion rannu gwybodaeth am y digwyddiad Dewis Eich Dyfodol gyda'u rhieni a'u gofalwyr. Isod, gwelwch rai adnoddau y gellir gobeithio eu rhannu trwy e-bost, cylchlythyr, neges destun a/neu gyfryngau cymdeithasol. Os oes angen rhagor o adnoddau arnoch, cysylltwch â ni trwy [marchnata@gyrfacymru.llyw.cymru](mailto:marchnata@gyrfacymru.llyw.cymru)

Mae manylion llawn holl ddigwyddiadau Gyrfa Cymru ar gael yma: [Digwyddiadau \(llyw.cymru\)](#)

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

## **Cylchlythyr / e-bost / gwefan**

Annwyl riant/gofalwr,

Mae Gyrfa Cymru yn dymuno eich gwahodd i ddod gyda'ch plentyn i'r digwyddiad canlynol:

**Dewis Eich Dyfodol Sir y Fflint a Wrecsam**  
**Dyddiad ac amser: 11 Hydref 2023**  
**Ble? 12.30 – 6.30 p.m.**

Os yw eich plentyn ym Mlwyddyn 9 neu uwch, hoffai Gyrfa Cymru i chi ymuno â nhw ar gyfer eu digwyddiad rhyngweithiol Dewis Eich Dyfodol. Digwyddiad am yrfaedd yw hwn ble byddant yn ymuno â chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, colegau a phrifysgolion i arddangos cyfleoedd addysg, gyrfaoedd, prentisiaethau a swyddi o amrywiol sectorau.

Dyma gyfle gwych i chi gael gwybodaeth gan bobl mewn diwydiant fel y gallwch gefnogi eich plentyn pan fydd yn gwneud penderfyniadau pwysig am ei addysg, hyfforddiant, gyrfa neu swydd. Cewch hefyd ddarganfod am beth mae cyflogwyr yn chwilio pan fyddant yn recriwtio'u gweithlu a chael dealltwriaeth o'r byd gwaith.

Bydd cynghorwyr gyrfaoedd hefyd ar gael yn y digwyddiad i roi cyngor ac arweiniad gyrfaoedd.

Does dim angen cofrestru ar gyfer y digwyddiad, dim ond dod draw ar y diwrnod. I ddarganfod mwy ac i weld pa arddangoswyr fydd yn y digwyddiad, ewch i wefan Gyrfa Cymru neu anfonwch e-bost at y Cynghorydd Cyswllt Busnes, manylion y Cynghorydd Cyswllt Busnes [lesley.lloyd@careerswales.gov.wales](mailto:lesley.lloyd@careerswales.gov.wales)

Gobeithiwn y gallwch fanteisio ar y cyfle i fynychu'r digwyddiad hwn a drefnwyd gan Gyrfa Cymru.

## Neges destun i rieni a gofalwyr

Mae digwyddiad gyrfaoedd Dewis Eich Dyfodol yn agored i ddisgyblion o flwyddyn 9 i fyny a'u rhieni/gofalwyr

[Dewiswch Eich Dyfodol Sir y Fflint a Wrecsam | Digwyddiadau \(llyw.cymru\)](#)

## Cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol

Dyma enghraifft o gynnwys:

### #DewisEichDyfodol / #ChooseYourFuture

#### Facebook:

Rhieni/gofalwyr... mae gwahoddiad i CHI! ✉  
Os yw eich plentyn ym mlwyddyn 9 neu uwch, hoffem i chi ymuno â ni ar gyfer ein digwyddiad #DewisEichDyfodol lle byddwn yn ymuno â chyflogwyr ac arbenigwyr diwydiant o bob rhan o Gymru i arddangos gyrfaoedd a swyddi o amrywiaeth o sectorau.

📅 11 Hydref 2023

🕒 12.30 – 6.30 p.m.

Rhagor o wybodaeth:

[Dewiswch Eich Dyfodol Sir y Fflint a Wrecsam | Digwyddiadau \(llyw.cymru\)](#)

#### Twitter:

Rhieni/gofalwyr... mae gwahoddiad i CHI! ✉

Ydy eich plentyn ym mlwyddyn 9 neu uwch? Ymunwch â ni ar gyfer ein digwyddiad #DewisEichDyfodol ar 11 Hydref 2023 – 12.30 to 6.30 p.m. Gallwch glywed gan arddangoswyr ac

#### Facebook:

Parents/carers... YOU'RE invited! ✉

If your child is in year 9 or above, we would like you to join us for our #ChooseYourFuture event where we will be teaming up with employers and industry experts from across Wales to showcase careers and jobs from a variety of sectors.

📅 11<sup>th</sup> October 2023

🕒 12.30 - 6.30 p.m.

Find out more [Choose Your Future Flintshire and Wrexham | Events \(gov.wales\)](#)

#### Twitter:

Parents/carers...YOU'RE invited! ✉

Is your child in year 9 or above? Join us for our #ChooseYourFuture event on 11<sup>th</sup> October from 3.30 to 6.30 p.m. You can hear from exhibitors and industry experts showcasing a variety of careers, courses and jobs.

<p>arbenigwyr y diwydiant sy'n arddangos amrywiaeth o yrfaoedd, cyrsiau a swyddi. 🖱️</p>	<p>🖱️</p>
<p>Rhieni/gofalwyr! Mae hwn i chi! 🖱️</p> <p>Os yw eich plentyn ym mlwyddyn 9 neu uwch, ymunwch â ni ar gyfer ein digwyddiad gyrfaoedd #DewisEichDyfodol lle gallwch chi a'ch plentyn gael cipolwg ar fyd gwaith i'w helpu i wneud penderfyniadau am ei ddyfodol.</p> <p>📅 11 Hydref 2023 🕒 12.30 – 6.30 p.m. Rhagor o wybodaeth: <a href="#">Dewiswch Eich Dyfodol Sir y Fflint a Wrecsam   Digwyddiadau (llyw.cymru)</a></p>	<p>Parents/carers! This one is for you 🖱️</p> <p>If your child is in years 9 or above, join us for our #ChooseYourFuture careers event where you and your child can get an insight into the world of work to help them make decisions about their future.</p> <p>📅 11<sup>th</sup> October 2023 🕒 12.30 - 6.30 p.m. Find out more <a href="#">Choose Your Future Flintshire and Wrexham   Events (gov.wales)</a></p>
<p>Ydych chi'n rhiant/gofalwr gyda phlentyn ym mlwyddyn 9 neu uwch? 😊</p> <p>Hoffai Gyrfa Cymru eich gwahodd i'n digwyddiad gyrfaoedd #DewisEichDyfodol ar 11 Hydref – 12.30 – 6.30 p.m. Byddwch yn clywed gan amrywiaeth o sefydliadau, yn darganfod beth mae cyflogwyr yn chwilio amdano wrth recriwtio eu gweithlu, a llawer mwy.</p> <p>Am ragor o wybodaeth, ewch i: <a href="#">Dewiswch Eich Dyfodol Sir y Fflint a Wrecsam   Digwyddiadau (llyw.cymru)</a></p>	<p>Are you a parent/carer with a child in year 9 or above? 😊</p> <p>Careers Wales would like to invite you to our #ChooseYourFuture careers event on 11<sup>th</sup> October from 12.30 to 6.30 p.m. You will hear from a variety of organisations, find out what employers look for when recruiting their workforce, and much more.</p> <p>For more information visit: <a href="#">Choose Your Future Flintshire and Wrexham   Events (gov.wales)</a></p>

Choose Your  
Future



Gyrfa Cymru  
Careers Wales

Ydych chi'n rhiant/gofalwr gyda phlentyn ym mlwyddyn 9 neu uwch? 😊

Hoffem eich gwahodd i'n digwyddiad #DewisEichDyfodol 11 Hydref 2023 – 12.30 – 6.30 p.m

Rhagor o wybodaeth [Dewiswch Eich Dyfodol Sir y Fflint a Wrecsam | Digwyddiadau \(llyw.cymru\)](#)

Are you a parent/carer with a child in year 9 or above? 😊

We would like to invite you to our #ChooseYourFuture careers event on the 11<sup>th</sup> October from 12.30 to 6.30 pm.

Find out more [Choose Your Future Flintshire and Wrexham | Events \(gov.wales\)](#)

 0800 028 4844

 Sgwrs ar-lein / Webchat

 [post@gyrfacymru.llyw.cymru](mailto:post@gyrfacymru.llyw.cymru) / [post@careerswales.gov.wales](mailto:post@careerswales.gov.wales)

 [gyrfacymru.llyw.cymru](http://gyrfacymru.llyw.cymru) / [careerswales.gov.wales](http://careerswales.gov.wales)

